

Y FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER COFNODION YN YMWNEUD AG AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU

Mae'r cofnodion sy'n cael eu cadw gan y sefydliadau sy'n gyfrifol am amgylchedd hanesyddol Cymru yn adlewyrchu natur gyfoethog yr adnodd a'r amryfal weithgareddau yr ymgwymerir â hwy yn y sector. Gall yr holl gofnodion hyn gyfrannu at fwynhad y cyhoedd o Gymru a nod y fframwaith yw cydnabod a chryfhau'r rôl hon drwy nodi'r trefniadau gwaith rhwng y sefydliadau sy'n cyfrannu.

Gwerthoedd ac Egwyddorion

Sicrhau bod y cyhoedd yn deall gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a ble i'w chyrchu.

Datblygu a rheoli cofnodion fel y gall pob math o ddefnyddiwr gyrchu'n hwylus wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

Cynnal a gwella cywirdeb cofnodion sy'n sail i wneud penderfyniadau ac sy'n hybu ymgysylltu â'r cyhoedd a mwynhad o dreftadaeth Cymru.

Meithrin cydweithio rhwng y sefydliadau cyfrannog i fanteisio i'r eithaf ar brofiad, arbenigedd a sgiliau pob un, a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio gydag unigolion, grwpiau, cymdeithasau a sefydliadau ar raddfa ehangach er mwyn gwella'r cofnodion.

Sefydlu rhannu data effeithiol rhwng y cofnodion presennol a rhai sy'n datblygu er mwyn cefnogi anghenion y cyrff sy'n cyfrannu a lleihau i'r eithaf unrhyw ddyblygu ymdrech.

Rheoli gwybodaeth yn unol â safonau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt fel bod y cofnodion yn cael eu diogelu at y dyfodol.

Y sefydliadau cyfrannog a'r diffiniad o gofnodion at ddiben y fframwaith

Mae'r Fframwaith Strategol yn cyfeirio at y cofnodion a reolir gan Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru (YAC), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG) ac Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (AC-NMW).

Diffinnir cofnodion fel deunydd dogfennol, ffotograffig, cartograffig ac wedi'i luniadu digidol a chopi caled, sydd naill ai'n gopiâu neu'n archifau gwreiddiol.

Bydd y deunydd sy'n cael ei ddal ym mhob un o gofnodion y sefydliadau cyfrannog yn cael ei gynhyrchu gyda'r bwriad y bydd yn eiddo i'r cyhoedd, oni chaiff ei ddynodi fel arall, a ble bynnag y bo modd bydd cofnodion ar gael yn ddi-dâl at ddefnydd anfasnachol a defnydd addysgol. Perchir pob hawlfraint a hawl cronfa ddata sy'n gysylltiedig â'r deunydd a ddelir ym mhob cofnod.

Gweithredoedd a Blaenoriaethau

Cyrchu Gwybodaeth

Bydd y porth Cymru Hanesyddol yn parhau i gael ei ddatblygu'n fan cyrchu strategol ar gyfer mynegeio gwybodaeth a ddarperir gan y partneriaid a bydd yn darparu cysylltau i wybodaeth bellach a reolir gan y sefydliadau cyfrannog. Bydd cysylltau i'r porth yn cael eu gosod ar wefannau'r sefydliadau cyfrannog hefyd.

Bydd telerau ac amodau ar gyfer cyrchu ac aildefnyddio'r wybodaeth at ddibenion masnachol yn cael eu pennu gan bob sefydliad yn unigol. Gall taliadau rhesymol gael eu codi i adennill costau ymholiadau o'r fath.

Dylai pob sefydliad sicrhau bod pob ymholwr yn gwybod am wybodaeth a gwasanaethau perthnasol a gynigir gan sefydliadau eraill yn y sector.

Rhannu a Chyfnwid Data

Bydd y partneriaid yn rhannu gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yn agored â'r partneriaid eraill i'w defnyddio yn eu busnes ac i ateb ymholiadau gan y cyhoedd fel rhan o drefn rhannu gwybodaeth y cytunwyd arni. Bydd egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd Llywodraeth Agored yn sylfaen i rannu o'r fath a bydd memorandwm dealltwriaeth yn nodi'r telerau ac amodau.

Safonau

Bydd Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru, wedi'i arwain gan CBHC a'i fynychu gan yr holl sefydliadau a gynhwysir yn y Fframwaith Strategol, yn gosod ac yn gweithredu safonau ar gyfer rheoli cofnodion yr amgylchedd hanesyddol a chofnodion cysylltiedig, rhai digidol a chopi caled, yng Nghymru. Mae'r Gweithgor Safonau wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl a bydd yn adrodd i'r Grŵp Cydlyn Cofnodion.

Caiff safonau eu llywio gan yr egwyddorion canlynol: hygyrchedd, cynaliadwyedd, y gallu i ryngweithredu, ac ymagwedd gyson at reoli hawliau.

Cynaliadwyedd a Gwydnwch

Rhaid diogelu'r holl gofnodion a gyllidir o'r pwrs cyhoeddus at ddefnydd y cyhoedd yn y dyfodol. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru wedi creu Ymddiriedolaethau Elusennol Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ar wahân i sicrhau diogelwch y cofnodion yn y dyfodol, a rheolir y rhain yn unol â set o feincnodau y cytunwyd arnynt.

Dylai pob deunydd gwreiddiol gael ei gadw mewn archif achrededig, sef Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel rheol, neu, yn achos arteffactau, mewn amgueddfa achrededig. Gweithgor Safonau Data Amgylchedd Hanesyddol Cymru,

ar y cyd â CBHC, a fydd yn pennu'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo deunydd gwreiddiol.

Hybu ac Arwain

Bydd pob aelod o'r Grŵp Cydlynu Cofnodion yn chwarae rhan mewn hybu gwaith y grŵp. Byddant yn gyfrifol hefyd am hybu arfer a safonau da o fewn ac y tu allan i'w sefydliadau, a dylent wreiddio safonau, canllawiau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt mewn gwaith y byddant yn ei gychwyn, ei weithredu neu ei oruchwylio.

Rôl y Grŵp Cydlynu Cofnodion

Bydd y Grŵp Cydlynu Cofnodion yn cytuno ar flaenoriaethau, yn goruchwylio datblygiad y fframwaith strategol gan gynnwys penderfynu ar yr amserlen a'r allbynnau terfynol, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Cydlynu Strategol. Bydd y Grŵp Cydlynu Cofnodion hefyd yn cysylltu â'r sector dal cofnodion ehangach ac yn sicrhau bod y safonau datblygol yn cyd-fynd â'r cyd-destun cenedlaethol ac yn adeiladu ar, yn hytrach na gwyro oddi wrth, y safonau ffurfiol presennol.